

Mycotocsinau

Mae mycotocsinau yn grŵp o gemegau naturiol sy'n cael eu cynhyrchu gan rai mathau penodol o lwydni. Maen nhw'n gallu tyfu ar amrywiaeth o gnydau a bwyd, gan gynnwys grawnfwyd, cnau, sbeisys, ffrwythau wedi'u sychu, sudd afal a choffi, a hynny mewn amodau cynnes a llaith.

O safbwynt diogelwch bwyd, mae'r mycotocsinau sy'n peri'r pryder mwyaf o yn cynnwys:

- aflatocsinau (B1, B2, G1, G2 a M1),
- ocratocsin A,
- patulin
- tocsinau sy'n cael eu cynhyrchu gan lwydni Fusarium, gan gynnwys ffumonisinau (B1, B2 a B3)
- trichothecenes (yn bennaf nivalenol, deoxynivalenol, tocsin T-2 a HT-2)
- zearalenone
- alcaloidau ergot, citrinin, sterigmatocystin a thocsinau altrnaria

Gall mycotocsinau effeithio ar iechyd pobl mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys achosi cancer (rhai yn genowenwynig), niwed i'r arennau a'r iau, aflonyddwch gastroberfeddol, anhwylderau atgenhedlu neu atal y system imiwneidd. Aflatocsinau yw'r math mwyaf niweidiol o mycotocsin. Gallant achosi cancer neu broblemau gyda threulio, atgenhedlu neu'r system imiwneidd.

Mae mycotocsinau yn digwydd yn naturiol, felly does dim modd osgoi eu presenoldeb mewn bwyd yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, mae'n briodol rhoi mesurau rheoli ar waith i sicrhau bod lefel cysylltiad mycotocsinau â bwyd mor isel ag sy'n rhesymol bosibl. Mae'r mesurau rheoli hyn yn amrywio o sicrhau bod arferion da yn cael eu cynnal wrth dyfu, cynaeafu a storio bwyd, yn ogystal â sefydlu lefelau uchaf lle bo angen.

Deddfwriaeth

Er mwyn amddiffyn diogelwch defnyddwyr, mae rheolau a therfynau llym ar gyfer aflatocsinau, ochracsin A, patulin a thocsinau Fusarium mewn rhai bwydydd.

Mae mycotocsinau yn digwydd mewn manau penodol oherwydd nad ydynt wedi'u dosbarthu'n gyfartal trwy'r bwyd. Er mwyn sicrhau bod y samplau profi yn gynrychioliadol o'r swp cyfan o fwyd mae darpariaethau ar gyfer samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaethau swyddogol lefelau uchaf ar gyfer mycotocsinau ar waith. Amlinellir hyn yn [Rheoliad 401/2006](#) ar y cyd â [Rheoliad 1881/2006](#). Bwriad y Rheoliad hwn yw sicrhau dull cyson gan aelod-wladwriaethau Ewropeaidd wrth wirio cydymffurfiaeth â'r lefelau uchaf ar gyfer mycotocsinau.

Mae'r darpariaethau ar gyfer samplu a dadansoddi yn berthnasol i gyrrff gorfodi yn unig. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd porthladdoedd a dadansoddwyr cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n bwysig i weithredwyr busnesau bwyd fod yn ymwybodol o'r darpariaethau hyn wrth gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy.

Rydym ni wedi creu cyngor samplu ar hyn i awdurdodau gorfodi a gweithredwyr busnesau bwyd (Saesneg yn unig)

[Mycotoxin sampling guidance](#) (223.54 KB)

Os yw gweithredwr busnes bwyd yn dymuno dadansoddi samplau ar gyfer mycotocsinau yn y

Deyrnas Unedig (DU), argymhellir defnyddio labordy achrededig ar gyfer dadansoddi mycotocsinau. Mae rhagor o wybodaeth am labordai achrededig ar gael ar [wefan Gwasanaethau Achredu'r Deyrnas Unedig](#).

Amodau arbennig ar fewnforion

Mae Rheoliadau [1881/2006](#) a [401/2006](#) yn berthnasol i'r bwydydd penodedig p'un a ydynt yn cael eu mewnfurio i'r DU neu eu cynhyrchu yn y DU. Caiff defnyddwyr eu diogelu gan amodau mewnfurio arbennig ar gyfer rhai bwydydd o drydydd gwledydd penodol lle mae'r risg o halogiad gan afflatocsinau yn cynyddu. Felly, bydd y bwydydd hyn yn destun gwiriadau ychwanegol a bydd yn rhaid iddynt fod â dogfennaeth benodol sy'n cadarnhau eu bod yn cydymffurfio â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Mae hyn yn cynnwys tystysgrif dadansoddi a thystysgrif iechyd gan awdurdod cymwys y wlad tarddiad.

Mae trosolwg o deddfwriaeth ar halogion, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n benodol i afflatocsinau, i'w weld ar wefan y Comisiwn Ewropeaidd. I gael rhagor o wybodaeth am fewnfurio bwydydd sy'n cynnwys mycotocsinau, edrychwch ar y [tudalennau gwybodaeth am fasnachu](#).

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn darparu canllawiau i awdurdodau cymwys ar reoli cydymffurfiaeth â deddfwriaeth yr UE ar [Afflatocsinau](#).

Codau ymarfer – Fusarium ac Ochratocsin A

Rydym ni wedi datblygu dau gôd ymarfer penodol ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon er mwyn lleihau Fusarium a mycotocsinau ochratocsin A mewn grawnfwydydd. Fe gyhoeddwn ni ganllaw i gynhoi'r codau ymarfer hyn ar gyfer ffermwyr grawnfwyd.

Mae'r codau ymarfer hyn yn y DU yn seiliedig ar set o egwyddorion cyffredinol er mwyn lleihau'r nifer o mycotocsinau a geir mewn grawnfwydydd.

[Code of good agricultural practice to reduce fusarium mycotoxins in cereals](#) (215.76 KB)

Guidance note

[Code of good storage practice to reduce ochratoxin A in cereals](#) (63.6 KB)

Guidance note

[Code of good agricultural practice to reduce mycotoxins in UK cereals](#) (422.55 KB)

Leaflet